

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch mawr y daeth y newydd ddechrau'r wythnos am farwolaeth Airys Jones (Peniel). Roedd Airys yn un o ysgrifenyddion Capel Peniel a bu'n ffyddlon a gweithgar yno ar hyd y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwyn ei phriod, ac â'u mab Dyfan a'r teulu. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth amdani.
- Anfonwn ein cofion at Robert Douglas Owen (Llanfair) sydd yn Ysbyty Abergele yn dilyn llawdriniaeth ddechrau'r wythnos. Hyderwn y bydd yn adnabod daioni Duw yn ei amgylchynu dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn wrth iddo fod yn gwella.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Emlyn Evans (Llansannan) fydd, os Duw a'i myn, yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ddydd Llun. Diolchwn amdano, ac fe'i cyflwynwn ef, a Megan hefyd, i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN:** Ymweliad â Chanolfan Dydd, Waengoleugoed, Llanelwy nos Lun, Tachwedd 20fed am 7.00. (Os hoffech gael lifft neu os oes gennych le i roi lifft i eraill, dewch i faes parcio'r Capel yn Llansannan erbyn 6.30, os gwelwch yn dda.) Mae yno 'siop' sy'n gwerthu pob math o bethau – o fwydydd, i eitemau newydd tebyg i fenyg / sanau neu anrhegion – a thrwy werthu'r eitemau hyn i rai sy'n galw yno, maent yn codi swm sylweddol ar gyfer rhedeg y Ganolfan. Felly, os oes modd i chi ddod â rhywbeth hefo chi, byddai hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr.
- **PANED A SGWRS** yn Ffestri Llansannan dydd Mawrth, Tachwedd 21ain o 1.30-3.30.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** – Swper a Sgwrs nos Fercher, Tachwedd 22ain yn Ffestri Llansannan am 7.00 yng nghwmni Judith Jones o'r Gaiman, Patagonia sydd yn Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Henaduriaeth Dyffryn Conwy. Enwau ac addewidion bwyd i Mair (01745 870632/07900 627536) **erbyn nos Fawrth, Tachwedd 14eg**, os gwelwch yn dda. Pris: £5.00. Bydd yr elw yn mynd tuag at gasgliad Sasiwn Chwiorydd y Gogledd yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn 2018.
- **CYFARFOD BLAENORIAID GOFALAETH BRO ALED** nos Fercher, Tachwedd 29ain yn Llanefydd am 7.30.
- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 10fed am 6.00.
- **OEDFA NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Llanefydd **am 10.30** bore Sul, Rhagfyr 24ain.
- **SWPER NADOLIG BRO ALED** yn Ffestri Llansannan, nos Iau, Rhagfyr 28ain am 7.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** dydd Gwener, Rhagfyr 29ain.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 31ain **am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12^{fed} Tachwedd 2017

Darlleniad y Dydd

Actau 4:8-12

(BCND tud.132 / BCN tud.121)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com


llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bob un ohonoch i'n hoedfaon ar draws Bro Aled heddiw. Ar Sul y Cofio, mae'n gyfle i ni weddio dros yr holl bobl hynny sydd wedi cael eu heffeithio ac yn parhau i ddelio â cholled oherwydd rhyfeloedd ar draws ein byd. Gwnawn hynny gan ddiolch i Dduw y bydd diwedd ar drais a gelyniaeth yn y pen draw yn sgil buddugoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

Nos Fercher am 7.30, bydd Dal i Gredud yn cael ei gynnal yn Ffestri Cefn Meiriadog. Y tro hwn byddwn yn edrych ar ddarnau o Efengyl Marc i ystyried pwy yn union oedd Iesu, a beth y mae hynny yn ei olygu i ni heddiw? Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod atom i wrando, trafod ac ystyried, does dim gwahaniaeth os nad oedd yn bosib i chi ddod i'r cyfarfod cyntaf, byddwn yn falch iawn o'ch croesawu!

Pwy yw Iesu yw un o'r cwestiynau mwyaf allweddol y gallwn bendroni yn ei gylch fel pobl, ac rwy'n dweud hynny oherwydd bod y Beibl yn datgelu'r fath bethau rhyfeddol am yr un a anwyd ym Methlehem. Yn ein darlleniad ar y cyd o lyfr yr Actau gwelwn Pedr ac Ioan o flaen awdurdodau crefyddol mwyaf pwerus Israel yn ateb cwestiynau am iacháu'r dyn cloff yn y deml. Er eu bod yn ddynion cyffredin di-addysg (4:13 Beibl.net), maent yn cyhoeddi yn hyderus trwy nerth yr Ysbryd Glân mai Iesu o Nasareth a groeshoeliwyd ac a atgyfododd yw'r unig achubydd i holl ddynol ryw. A thrwy awdurdod iachusol enw Iesu Grist yr iachawyd y dyn cloff yn y deml. Nid yn unig maent yn egluro i'r awdurdodau beth yw'r gwaith y mae Iesu wedi ei wneud o flaen eu llygaid, ond maent hefyd yn egluro mai Iesu yw'r congIfaen i gynllun achubol Duw. Tybed beth ydym ni'n ei wneud o'r gwirionedd yma mai Iesu Grist yw'r unig un sy'n gallu cymodi rhwng Duw sanctaidd â dynoliaeth euog? Efallai na fyddem yn barod i ddweud fod Iesu ddim yn bwysig, ond ydym ni'n sylweddoli mor hawdd yw dweud neu ganu mai Iesu yw'r Gwaredwr a ninnau'n byw ein bywydau heb ymddiried ynddo? Yn Oedfa'r Fro heno byddwn yn rhoi sylw i beth mae cyfiawnhad trwy ffydd yn ei olygu a sut mae'r ffydd hwnnw'n amlygu ei hun ym mywyd y Cristion. Wrth i ni ofyn y cwestiynau mawr yma ac ystyried rhai o'r gwirioneddau a ddaeth mor bwysig yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, gweddiwn am gymorth i allu gweld harddwch ac addasrwydd Iesu i fod yn achubydd i bobl ym mhob oes gan gynnwys ninnau heddiw.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Amos 9:13-15 (BCND tud.838 / BCN tud.763)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 12^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 14^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
➤ **Hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus** – Mewn eglwys lle cynhelir gwaith gyda phlant/ieuenctid/oedolion bregus, mae RHAID i bob gwirfoddolwr ac ymddiriedolwr dderbyn gwiriad trwy lenwi ffurflen DBS, a hefyd fynychu hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus. Mae sesiwn hyfforddiant arall yn cael ei gynnal heno yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr am 7.00. Os nad ydach chi wedi derbyn yr hyfforddiant eisoes a'ch bod yn ffitio'r categori uchod, plis fedrwch chi wneud ymdrech arbennig i fod yno?
- Mercher – 15^{fed} ➤ **Cynhadledd Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd** yng Nghapel Tegid, Y Bala o 10.00 – 3.00.
➤ **Dal i Gredu** – sesiwn holi a thrafod yn Festri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 16^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 17^{eg} ➤ **CIC + ym Mhreswylfa**, Cefn Meiriadog o 4.00-5.30.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Gwion yn pregethu.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. (Cofiwch am y casgliad Pilipinas, os gwelwch yn dda, a'r bocsys smarties.) Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Mawrth – 14^{eg} ➤ Cynhelir Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn y Waen am 7.30 pryd y ceir noson yng nghwmni Gaynor Morgan Rees.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yno am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg yn y ddwy eglwys.
- Gwener – 17^{eg} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW (12^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a byddwn yn ymgynnull yn y Neuadd Goffa am 10.45 ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Festri Cefn Meiriadog am 10.30 a bydd cyfle i glywed Cheryl Williams yn ein hatgoffa am Apêl Corwynt Cariad, sef apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2017 tuag at waith Cymorth Cristnogol yn Ynysoedd y Pilipinas. Fe wneir casgliad agored tuag at yr apêl a bydd cyfle am banded a sgwrs. Croeso cynnes. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Mawrth – 14^{eg} ➤ Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.
➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 14^{eg} ➤ Cynhelir Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn y Waen am 7.30 pryd y ceir noson yng nghwmni Gaynor Morgan Rees.
- Mercher – 15^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (12^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol yn Llansannan **am 10.30** a bydd cinio a phwddin i ddilyn yn y festri i godi arian i apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2017 (Apêl Corwynt Cariad) i helpu gwaith Cymorth Cristnogol yn Ynysoedd y Pilipinas. Croeso i bawb. Enwau i Dylan Roberts (870286) **HEDDIW (12^{fed})**, os gwelwch yn dda. Oedolion: £10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Henllan a Groes

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Mawrth – 14^{eg} ➤ Cynhelir Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn y Waen am 7.30 pryd y ceir noson yng nghwmni Gaynor Morgan Rees.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.